



# **Drafft Gyllideb Llywodraeth Cymru**

**16 Rhagfyr 2019**

## **Crynodeb**

Heddiw mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Drafft Gyllideb ar gyfer 2020/21. Mae'r gyllideb yn cyflwyno cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru am y 12 mis o fis Ebrill 2020 yn y meysydd cyfrifoldeb a ddatganolwyd, yn cynnwys iechyd, tai a gofal cymdeithasol.

Ar ffurf drafft mae'r cynigion ar hyn o bryd, a gallant newid, gydag angen pleidlais yn y Cynulliad i gymeradwyo'r gyllideb cyn diwedd y flwyddyn.

Fel rhan o ymrwymiad Cartrefi Cymunedol Cymru i'n haelodau, rydym wedi gweithio i gasglu data o Ddrafft Gyllideb Llywodraeth Cymru, ystadegau allweddol a'n rhagolygon am effaith posibl y Ddrafft Gyllideb ar gymdeithasau tai yng Nghymru. Caiff y mesurau a gyhoeddir yn y gyllideb sy'n uniongyrchol berthnasol i gymdeithasau tai eu crynhoi islaw, gyda manylion pellach lle maent ar gael.

Gallwch hefyd ddarllen ein hymateb i gyllideb heddiw ar ein gwefan [yma](#).



## Penawdau allweddol

- I gyflawni ei hymrwymiad i sicrhau 20,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol ar draws tymor hwn y Cynulliad (2016-2021), mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi £223 miliwn mewn cartrefi fforddiadwy yn y flwyddyn ariannol nesaf, cynnydd o £133 miliwn ar ymrwymadau blaenorol.
- Cafodd cyllid ar gyfer y Grant Cymorth Tai ei warchod yn dilyn ein hymgyrch Materion Tai lwyddiannus a gynhaliwyd ar y cyd gyda Cymorth Cymru a Cymorth i Ferched Cymru.

## Dyraniadau llinellau cyllideb allweddol

Llinell Cyllideb Gyfalaf	Cyllid 2019/20 (Cyllideb Atodol)	Cyllid 2020/21 (Drafft Gyllideb)	% newid
Grant Tai Cymdeithasol	£188.2m	£223.2m	19%
Cymorth i Brynu Cymru	£62.1m	£68.5m	10%
Tir ar gyfer Tai	£10m	£10m	+/- 0%
Cronfa Gofal Integredig	£35m	£42m	20%
Adfywio	£28.6m	£51.8m	81%



Llinell Cyllideb Refeniw	Cyllid 2019/20 (Cyllideb Atodol)	Cyllid 2020/21 (Drafft Gyllideb)	% newid
Grant Cymorth Tai	£126.8m	£126.8m	+/- 0%

## Manylion ar gyhoeddiadau cyllid

Mae'r cyfanswm cynnydd o £133m mewn cyllid yn cynnwys nifer o ymrwymadau pennawd:

£48m – Grant Tai Cymdeithasol

£50m – Benthyciadau Tai (ar gyfer datblygiadau newydd ac i ddechrau datgarboneiddio cartrefi)

£5m – Cronfa Rhyddhau Tir

£10m – Adfywio Canol Trefi

£10m – Adeilad Modiwlwr

### a.) Cyllid ar gyfer tai fforddiadwy (SHG & HFG)

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £223 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf i gyrraedd eu targed o X o gartrefi fforddiadwy sy'n cynnwys y grant Tai Cymdeithasol (SHG).

Wrth ochr hyn, mae £68.5 miliwn yn llinell y gyllideb ar gyfer cronfa Cymorth i Brynu Cymru a chynlluniau ychwanegol marchnad dai, fydd yn ariannu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau cartrefi Cymorth i Brynu a'r model Rhentu i Brynu fel rhan o'u hymrwymiad i gyflenwi 20,000 o gartrefi yn ystod tymor hwn y Cynulliad.

### i. Effaith

Bydd cymdeithasau tai yn allweddol i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod tymor hwn y Cynulliad, ac mae'r cyllid



ychwanegol a gyhoeddwyd heddiw yn hwb a groesawir i sicrhau y gallwn barhau â'n cynnydd cryf tuag at gyrraedd y targed hwnnw. Wrth ochr y cartrefi hynny a gyflenwir drwy gyllid grant, mae cymdeithasau tai wedi cyflenwi - ar gyfartaledd - tua 25% o'u cartrefi fforddiadwy yng Nghymru yn flynyddol heb grant.

Croesawn y cynnydd mewn cyllid cyfalaf i adeiladu tai fforddiadwy yn y gyllideb hon. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyflawni ein hymrwymiaid yn ein cytundeb cyflenwi tai. Yn 2018/19, bu cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yn cydweithio i sicrhau'r nifer uchaf mewn 10 mlynedd o gartrefi fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yng Nghymru, gan adael darparwyr tai cymdeithasol ar y trywydd i gyflawni ein hymrwymiad i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni eu targed o 20,000 o gartrefi.

## **b.) Grant Cymorth Tai**

Yn dilyn ein hymgyrch Materion Tai, a gynhaliwyd mewn partneriaeth gyda Cymorth Cymru a Cymorth i Ferched Cymru, mae cyllideb ddrafft heddiw wedi cadarnhau y caiff y Grant Cymorth Tai ei warchod ar lefelau 2019/20.

### **i.) Effaith**

Bydd canlyniad llwyddiannus yr ymgyrch yn sicrhau y gall aelodau sy'n derbyn cyllid Grant Cymorth Tai barhau i gyflawni'r gwasanaethau ataliol hanfodol hyn gyda sicrwydd. Yn dilyn addewidion gwariant ychwanegol gan y blaid Ceidwadwyr yn ystod ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol, a'r cynnydd dilynol yng nghyfanswm cyllideb Cymru, byddwn yn parhau ein hymgyrch yn yr wythnosau nesaf a gofyn am i beth o'r cyllid ychwanegol hwn gael ei gyfeirio at broblem gynyddol digartrefedd drwy'r Grant Cymorth Tai. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gydag aelodau, Cymorth Cymru a Llywodraeth Cymru i ddangos effaith y rhaglen hon.

## **c.) Datgarboneiddio Cartrefi**

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad *Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell* ar ddatgarboneiddio cartrefi presennol yng Nghymru, rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddeall y ffordd orau ymlaen i gymdeithasau tai gyflawni eu huchelgais a nodir yn yr adroddiad hwn. Er nad oes unrhyw ymrwymiaidau cyllid penodol yn y gyllideb ar gyfer datgarboneiddio, disgwyliwn y caiff ymchwil ar gynyddu ôl-osod ym mis Mawrth 2020. Mae CHC yn parhau i lobio am gyllid grant ar gyfer cymdeithasau tai i gyflawni ein huchelgais i'r sector cyfan i ddatgarboneiddio cartrefi.



#### **d.) Cronfa Gofal Integredig**

Mae drafft gyllideb heddiw wedi cadarnhau y bydd y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer 2020/21 yn £42m, cynnydd o £7m ar gyllideb y llynedd.

##### **i.) Effaith**

Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn cyllido prosiectau ar y cyd rhwng tai, iechyd a gofal cymdeithasol sy'n diwallu anghenion ystod eang o grwpiau, yn cynnwys pobl hŷn gydag anghenion cymhleth, pobl gydag anableddau dysgu, plant a gofalwyr. Mae hwn yn bot cyllid hanfodol ar gyfer gwell alinio ar wasanaethau iechyd a thai y gall cymdeithasau tai gael mynediad iddo drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Gydag ychwanegiad cynrychiolwyr tai i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, bydd mwy o gyfle i gymdeithasau tai ddylanwadu ar y cyllid, a bydd CHC yn gweithio'n agos gydag aelodau yn y Byrddau hyn i sicrhau y caiff gwybodaeth a gweithio partneriaeth ei rannu ar draws y sector.

#### **e.) Adfywio**

Mae drafft gyllideb heddiw wedi cadarnhau £51.8m o gyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau adfywio yn y portffolio Tai a Llywodraeth Leol. Mae hyn yn gynydd/gostyngiad o £23.2m ar gyllideb y llynedd.

##### **i.) Effaith**

Mae'r cyllid adfywio hwn yn rhoi cyfleoedd i gymdeithasau tai gyllido prosiectau adfywio cyfalaf yn 2020/21. Wrth ochr cyhoeddiad heddiw, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi derbyn argymhelliad yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy y dylai unrhyw fframwaith grant newydd ar gyfer seilwaith ac adfywio gynnwys pot cyllid neilltuol i hwyluso darparu mwy o gartrefi fforddiadwy. Rydym yn disgwyl datblygiadau pellach ar hyn yn dilyn gwaith y grŵp Cyllido Tai Fforddiadwy sy'n ystyried cyflenwi argymhellion yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy.